


Eich Cyfweiliad ar gyfer

YSGOL GELF a DYLUNIO
CAERDYDD



Cardiff
Metropolitan
University

Prifysgol
Metropolitan
Caerdydd



Eich Cyfweiliad ar gyfer Ysgol Gelf a Dylunio Caerdydd


Nid dim ond canlyniadau arholiad fydd yn sicrhau'ch lle yn Ysgol Gelf a Dylunio Caerdydd. Rydyn ni am wybod rhagor amdanoch chi fel person ac fel artist, dylunydd neu wneuthurwr. Mae hyn yn ein helpu i sicrhau y bydd ein cymuned amrywiol a chreadigol o fyfyrwyr a staff yn addas i chi.

Dyna pam y byddwn yn gwahodd ein hymgeiswyr i fynychu diwrnod cyfweiliad ar ynghyd â phortffolio o'u gwaith. Mae Dyddiau Cyfweild yn Ysgol Gelf a Dylunio Caerdydd yn gyfle i chi ddangos i ni pwy ydych chi a'r hyn yr ydych yn gallu ei wneud. Maen nhw hefyd yn gyfle i chi weld sut gall astudio yma fod o fudd i chi – drwy gwrdd â'n staff, gweld ein hamgylchedd gwaith a'n cyfleusterau a mynd ar daith o gwmpas y campws.

Mae'r broses cyfweild yn amrywio fesul cwrs. Ond mae'r mwyafrif yn cynnwys adolygiad o'ch portffolio a sgwrs gyda thîm y pwnc. Mae rhai o'n cyfweiliadau yn rhai un-i-un, tra gall eraill olygu ymarferion grŵp.

Mae ein cyfweiliadau i gyd yn rhai anffurfiol – rydyn ni am i chi deimlo'n gyfforddus a gallu bod yn naturiol.

Rydyn ni'n chwilio am dystiolaeth o'ch **brwdfrydedd**, **creadigrwydd** a **chwilfrydedd** yn ogystal â'ch sgiliau a'ch potensial fel artist, dylunydd neu wneuthurwr.



Awgrymiadau ar gyfer cyfweliad

Dyma awgrymiadau sut i fanteisio i'r eithaf ar eich cyfweliad yn Ysgol Gelf a Dylunio Caerdydd:

- **Gwnewch eich ymchwil** – sicrhewch eich bod wedi darllen yr holl wybodaeth ar ein gwefan am y cwrs yr ydych chi'n gwneud cais amdano, cyn dod i'r cyfweliad, yn cynnwys ein tudalennau newyddion ac orielau myfyrwyr. Gallech hyd yn oed wirio ein Instagram a chyfryngau cymdeithasol eraill.
- **Paratoi rhai cwestiynau** – gofynnwch i ni am bethau fel lleoliadau profiad gwaith, cyfleoedd teithio ac astudiaeth bellach ar ôl eich gradd neu am unrhyw beth arall yr hoffech chi ei wybod am astudio gyda ni.
- **Byddwch yn naturiol** – inid cyfweliad ffurfiol ar gyfer swydd ydy hwn, felly, dydyn ni ddim yn disgwyl i chi gyrraedd mewn siwt! Rydyn ni am gwrdd â chi fel rydych chi, go iawn.
- **Byddwch yn brydlon** – sicrhewch eich bod wedi darllen yr holl wybodaeth y byddwn yn ei hanfon atoch chi a chaniatáu digon o amser i deithio yma (gweler **Sut i Ddod o Hyd i Ni**). Rydyn ni'n argymhell eich bod yn cyrraedd **30 munud** cyn amser eich cyfweliad. Byddwch yn perfformio'n well os nad ydych wedi bod yn gofidio am gyrraedd yn hwyr. Os bydd problem ac os byddwch yn meddwl y gallech fod yn hwyr, cysylltwch â ni a gadael i ni wybod cyn gynted â phosibl. Rydyn ni'n hoffi rhoi digon o amser i chi yma, felly, dylech ddisgwyl treulio bore neu bryhawn cyfan gyda ni, yn dibynnu ar adeg y cyfweliad.



Awgrymiadau ar gyfer Portffolio

Mae eich portffolio yn eich portreadu chi fel artist, dylunydd neu wneuthurwr a dylai roi syniad i ni o'ch diddordebau, sgiliau a'ch cwmpas creadigol. Dyma rai awgrymiadau:

- **Cynnwys eich gwaith gorau.** Gallai hyn fod yn waith a grëwyd ar eich cwrs cyfredol, neu waith personol yr ydych wedi'i greu i chi eich hun. Sicrhewch ei fod wedi'i drefnu a'i osod allan yn dda.
- **Ansawdd yn hytrach na maint.** Rhan bwysig o ddarparu portffolio da ydy penderfynu beth i'w hepgor – yn hytrach na dod â phopeth yr ydych wedi'i wneud erioed, dewiswch eich darnau gorau a'r rhai mwyaf perthnasol. Rydyn i'n argymhell i chi ddod ag un portffolio sengl (hyd at maint A1) ac un neu ddau lyfr braslunio i ddangos sut yr ydych chi'n datblygu eich syniadau.
- **Dangoswch eich arbroffion i ni.** Dylech gynnwys darnau lle buoch yn ceisio gwneud pethau newydd, neu gymryd risg – hyd yn oed os na weithiodd pethau allan. Mae hyn yn dangos i ni eich bod yn gallu gweithio tu allan i faes yr ydych yn gysurus ynddo.
- **Peidiwch â dod â gwaith mawr 3D.** Os oes gennych waith 3D mawr yr hoffech ei ddangos i ni, peidiwch â dod ag e gyda chi, gan y gallai gael ei ddfrodi neu fynd ar goll. Yn hytrach, tynnwch luniau o ansawdd da a'u cynnwys yn eich portffolio.
- **Datgloi eich dyfeisiau.** Os bydd gennych waith digidol neu symudol i dangos i ni, sicrhewch fod y ddyfais wedi'i ddatgloi /heb gyfrinair am gyfnod y cyfweiliad.

Ar ôl eich cyfweiliad

Os bydd eich cyfweiliad yn llwyddiannus, byddwn yn ysgrifennu atoch gyda naill ai cynnig amodol neu gynnig di-amod. Byddwn hefyd yn hysbysu UCAS er mwyn iddyn nhw ddiweddar'u'ch proffil ar Track. Os cewch gynnig di-amod, bydden ni'n disgwyl i chi barhau i weithio a dysgu – rydyn ni'n argymhell yn gryf y dylech weithio'n galed i gwblhau'ch cwrs cyfredol a chael y canlyniadau gorau gallwch chi. Byddwn ni hefyd yn hysbysu UCAS er mwyn iddyn nhw ddiweddar'u'ch proffil ar Track.

Os byddwn ni'n gwneud cynnig amodol, ond nad ydych chi'n yn ennill y graddau gofynnol pan ddaw canlyniadau, cysylltwch â ni. Os gwnaethoch chi'n dda yn y cyfweiliad a bod eich portffolio wedi creu argraff arnon ni, byddwn yn ystyried hynny.

Pob Lwc!

**1**

STEAMD!

Mae ein ffordd o feddwl am gelf a dylunio wedi'i ehangu i gyd-destunau Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianeg a Mathemateg gan ganolbwyntio ar gyfrifoldeb cymdeithasol, dinasyddiaeth fyd-eang, cynhwysiant, lles a dyfodol cynaliadwy.

Mae ein cwricwlwm yn arloesol

Mae wedi'i ddylunio er mwyn caniatáu cyfleoedd dysgu rhyng-, traws- ac amlddisgyblaethol trawsnewidiol. Mae cael mwy o brofiadau amrywiol yn datgelu cysylltiadau creadigol posibl rhwng disgyblaethau ac ar draws disgyblaethau, yn ogystal â thu hwnt i'r Brifysgol.

**2****4**

Mae ein haddysgu, ein hymchwil a'n harloesedd yn integredig ac yn cyrraedd safon fyd-eang

Pobl sydd yng nghanol pethau. Mae'n pontio celf a gwyddoniaeth, dylunio a lles, pobl a'r amgylchedd, deunyddiau a thechnoleg, dylunio cynhwysol a rhyngweithiol, ac mae pobl yn rhan greiddiol ohono. Mae syniadau ein myfyrwyr yn rhan o hynny.

Mae graddedigion Ysgol Gelf a Dylunio Caerdydd yn feddylwyr

Maen nhw'n ymarferwyr, yn entrepreneuriaid, yn arweinwyr, yn gyflogadwy ac yn gyflogwyr y dyfodol. Mae meddwl yn feirniadol ac yn greadigol yn esgor ar lwyddiant.

**3****5**

Mae Ysgol Gelf a Dylunio Caerdydd yn paratoi pobl ar gyfer byd sy'n newid

Rydym yn dod â chysylltiadau a rhwydweithiau byd-eang gyda diwydiant i'n stiwdios i weithio gyda'r myfyrwyr. Rydym yn darparu profiadau a chyfleoedd sy'n ein diogelu at y dyfodol. Ymhen 10 mlynedd, bydd 60% o raddedigion yn gweithio mewn swyddi nad ydynt yn bodoli eto.

**6**

Rydym yn meddwl yn fyd-eang

Rydym yn ddinasyddion y byd, ac mae ein partneriaethau gyda chymunedau a sefydliadau yn gynhyrchiol ac yn fuddiol i'r ddwy ochr.

Rydym yn gweithredu'n lleol

Mae ein staff a'n myfyrwyr yn gwneud cyfraniad i gymdeithas a diwydiant. Rydym yn ysgogi newid cadarnhaol.

**7**



Sut i ddod o hyd i ni

Ar Gludiant Cyhoeddus

Gorsaf Caerdydd Canolog ydy prif orsaf drenau'r ddinas. Ewch i www.nationalrail.co.uk i gynllunio'ch taith.

Mae bysiau o Orsaf Ganolog Caerdydd i Landaf yn cymryd tua 15 munud. O'r fan honno, mae ein campws yn waith 5 munud o gerdded. Am fanylion y gwasanaeth ewch i www.cardiffbus.com a defnyddio'r cynllunydd teithio.

Ceir cyfarwyddiadau pellach ar ein gwefan sef: www.cardiffmet.ac.uk/findus

Yn y car

Does dim cyfleusterau parcio ar Gampws Llandaf ond mae man gollwng pobl/codi pobl yn o gofod o flaen y campws. Defnyddiwch y cod post **CF5 2YB** ar gyfer Sat Nav.

Os oes gennych anabled, ac angen man parcio neu unrhyw gymorth ychwanegol, cysylltwch â ni er mwyn i ni allu eich helpu.

Cysylltu â ni

Os oes gennych gwestiynau am eich cyfweiliad neu os ydych am gysylltu â ni ar y diwrnod, mae'r manylion cyswllt isod:
029 2041 6010
askadmissions@cardiffmet.ac.uk

YSGOL GELF o DYLUNIO
CAERDYDD

**Campws Llandaf,
Rhodfa'r Gorllewin,
Caerdydd, CF5 2YB**